

Senedd Cymru

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a  
Chysylltiadau Rhyngwladol

# Memorandwm Cydsyniad

## Deddfwriaethol Atodol ar y Bil

### Diogelwch Ar-lein (Rhif 3 a Rhif 4)

Chwefror 2023



## 1. Cyflwyniad

- 1.** Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar 30 Mawrth 2022 o dan Reol Sefydlog 29.2.
- 2.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried, gan nodi bod angen cyflwyno adroddiad erbyn 21 Gorffennaf 2022. Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar y Memorandwm hwnnw ar 24 Mehefin 2022.
- 3.** Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar 28 Medi 2022. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Atodol at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Cyhoeddwyd adroddodd y Pwyllgor ar y Memorandwm Atodol hwnnw ar 15 Rhagfyr 2022.
- 4.** Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ("Memorandwm Rhif 3") ar 8 Tachwedd 2022. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Rhif 3 at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gan nodi bod angen cyflwyno adroddiad erbyn 16 Chwefror 2023.
- 5.** Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ("Memorandwm Rhif 4") ar 21 Rhagfyr 2022. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Rhif 4 at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gan nodi bod angen cyflwyno adroddiad erbyn 2 Mawrth 2023.
- 6.** Cytunodd y Pwyllgor i ystyried Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4 ("Memoranda Rhif 3 a Rhif 4") a chyflwyno adroddiad arnynt gyda'i gilydd.

## 2. Ein dull ni

- 7.** Trafododd y Pwyllgor Femoranda Rhif 3 a Rhif 4 yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2023. O ystyried natur y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer, ni cheisiodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â'r naill Femorandwm na'r llall.

### 3. Bil Diogelwch Ar-lein y DU a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

**8.** Cyflwynwyd Bil Diogelwch Ar-lein ("y Bil") gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mawrth 2022. Noddir y Bil gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

**9.** Mae teitl hir y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn nodi ei ddiben, sef:

*"Make provision for and in connection with the regulation by OFCOM of certain internet services; for and in connection with communications offences; and for connected purposes."*

**10.** Trafodwyd y Bil yn ystod yr ail ddarlleniad ar 19 Ebrill 2022; cafodd ei gario drosodd i Sesiwn 2022-23 a'i ailgyflwyno ar 11 Mai 2022. Cwblhaodd y Bil drafodion yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus ar ôl ei ailgyflwyno ar 15 Rhagfyr 2022, gan gwblhau ei gyfnod adrodd a chael trydydd darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Ionawr 2023. Cafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Ionawr 2023 ac mae'r ail ddarlleniad wedi'i drefnu ar gyfer 1 Chwefror 2023.

**11.** Mae crynodeb o ddarpariaethau'r Bil wedi'i gynnwys ym mharagraffau 8 i 13 o Femorandwm Rhif 3, sy'n ailadrodd yn fras y crynodeb sydd i'w gael ym mharagraffau 7 i 12 o Femorandwm Rhif 1 (a pharagraffau 10 i 15 o Femorandwm Rhif 2). Yn gryno, mae'r Bil yn cyflwyno trefn reoleiddio newydd mewn perthynas â'r canlynol:

- darparwyr gwasanaethau rhynggrwyd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddod ar draws cynnwys a gynhyrchir, a lanlwythir neu a rennir gan ddefnyddwyr eraill, h.y. cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ("gwasanaethau defnyddwyr-i-ddefnyddwyr");
- darparwyr chwilotwyr sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio gwefannau a chronfeydd data lluosog ("gwasanaethau chwilio");
- darparwyr gwasanaethau rhynggrwyd y mae cynnwys pornograffig yn cael ei gyhoeddi neu ei arddangos arnynt.

**12.** Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd, yn disodli troseddau cyfathrebu presennol perthnasol â throseddau cyfathrebu newydd: trosedd cyfathrebu niweidiol, trosedd cyfathrebu ffug, a throsedd cyfathrebu bygythiol. Y troseddau hyn oedd pwnc Memorandwm Rhif 2. Mae'r Bil hefyd yn creu trosedd "seiberfflachio" newydd ac, fel y'i cyflwynwyd drwy ddiwygiad, drosedd newydd o anfon neu ddangos delweddau fflachio'n electronig.

## 4. Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

**13.** Mae Rheol Sefydlog 29 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo Bil y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru:

- a. at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau deilliadol, canlyniadol, trosiannol, darfodol, atodol neu arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu
- b. sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**14.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn datgan bod diwygiadau i'r Bil sy'n gofyn cydsyniad y Senedd yn cynnwys trosedd newydd o anfon neu ddangos delweddau fflachio (rhif NC41) ac esemptiadau o droseddau o dan y Bil (rhif NC13). Mae'r darpariaethau hynny wedi'u crynhoi isod.

**15.** Mae Memorandwm Rhif 4 yn datgan bod cymal 165 ac Atodlen 14 yn gofyn cydsyniad y Senedd, ac yn nodi bod cymal 151, a greodd drosedd o gyfathrebu niweidiol ac a oedd wedi'i gynnwys gan Femorandwm Rhif 2, wedi'i ddileu o'r Bil.

### Memorandwm Rhif 3

---

#### **Diwygiad NC41 – Troseddau o anfon neu ddangos delweddau fflachio'n electronig: Cymru a Lloegr**

**16.** Mae cymal newydd (sydd bellach wedi'i ychwanegu fel cymal 164), a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU fel diwygiad, yn creu trosedd ar gyfer anfon neu ddangos delweddau fflachio i unigolion y mae'n hysbys eu bod yn dioddef o epilepsi. Mae'r drosedd yn gymwys i ymosodiadau wedi'u targedu ar unigolion ac ar grwpiau megis Cymdeithas Epilepsi.

**17.** Er enghraifft, byddai'r drosedd yn cynnwys postio delweddau fflachio i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, neu anfon neges yn uniongyrchol at y derbynnydd. Mae'r drosedd hefyd yn cynnwys unigolyn sy'n dangos delwedd fflachio i un arall yn uniongyrchol, er enghraifft drwy ddal ffôn symudol i fyny gyda'r bwriad y byddai unigolyn ag epilepsi ffotosensitif sy'n dod ar draws y delweddau hynny yn dioddef trawiad.

**18.** Nid yw'r drosedd wedi'i chyfyngu i'r rhyngrwyd neu'r amgylchedd ar-lein ac, er bod y drosedd yn ymwneud yn benodol â chyfathrebiadau electronig, mae'n ddigon eang i ddal ymddygiad nad yw'n digwydd drwy wasanaethau'r rhyngrwyd.

**19.** Yn yr un modd â'r troseddau a oedd yn bwnc Memorandwm Rhif 2, er bod yr amcan polisi yn cyfeirio at gynnwys ar-lein a'r DU fel y lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein, mae diben y drosedd newydd yn ehangach – diben y cymal newydd yw amddiffyn personau rhag niwed. I'r graddau y mae'r cymal yn creu trosedd nad yw'n gyfyngedig i gyfathrebiadau electronig, mae'r cymal o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

### **Diwygiad NC13 – Esemptiadau o droseddau o dan adrannau 151 a 152**

**20.** Roedd y diwygiad hwn (sydd bellach wedi'i gynnwys fel cymal 161) yn cynnwys esemptiadau i'r drosedd cyfathrebiadau ffug o dan gymal 152 (cymal 160 bellach). Mae'r esemptiadau'n sicrhau bod deiliaid trwyddedau penodol wedi'u hesemptio os ydynt yn gweithredu fel y'u hawdurdodwyd gan y drwydded ac, yn achos trwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, os ydynt yn darparu gwasanaeth amlbleth. Roedd y diwygiad hefyd yn gymwys i gymal 151 (trosedd cyfathrebiadau niweidiol) sydd bellach wedi'i ddileu – dyma un o'r diwygiadau canlyniadol y cyfeirir atynt ym mharagraff 19 isod.

### **Memorandwm Rhif 4**

---

#### **Dileu cymal 151: trosedd cyfathrebiadau niweidiol**

**21.** Roedd Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â chymalau 151 i 154 a 156 o Ran 10 o'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus. Yn y Cyfnod Adrodd, dileodd diwygiad 239 gymal 151 (trosedd cyfathrebiadau niweidiol, cymal 150 fel y'i cyflwynwyd).

**22.** Mae diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i ddileu cymal 151.

**23.** Mae paragraff 18 o Femorandwm Rhif 4 yn gofyn i'r Senedd nodi, o ganlyniad i ddileu cymal 151 o'r Bil, nad oes angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwnnw mwyach.

#### **Cymal 165 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd (cymal 158 fel y'i cyflwynwyd) ac Atodlen 14**

**24.** Mae cymal 165 (cymal 169 bellach) yn cyflwyno Atodlen 14, sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â'r cymalau a ganlyn:

- cymal 156 – trosedd cyfathrebiadau ffug (cymal 151 fel y'i cyflwynwyd; cymal 160 bellach);
- cymal 158 – trosedd cyfathrebiadau bygythiol (cymal 152 fel y'i cyflwynwyd; cymal 162 bellach);

- cymal 163 – anfon etc. ffotograff neu ffilm o organau cenedlu etc. (cymal 156 fel y'i cyflwynwyd; cymal 167 bellach);<sup>1</sup>
- cymal 160 – trosedd delweddau fflachio (cymal 164 bellach).

**25.** Cytunodd y Pwyllgor y dylid ceisio cydsyniad ar gyfer cymal 165 (cymal 159 ar adeg y cyngor; cymal 169 bellach), gan fod y darpariaethau hynny'n ategol i gymalau a oedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nodwyd hyn yn adroddiadau blaenorol y Pwyllgor a'r adroddiad a luniwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

## 5. Y rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil

**26.** Mae'r rhesymau a roddwyd gan y Gweinidog dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil wedi'u nodi ym mharagraffau 29 i 31 o Femorandwm Rhif 3. Yn y paragraffau hynny, nodir fel a ganlyn:

*"30. Mae diogelwch a lles pobl yn gyfrifoldeb sy'n cael ei rannu ac yn ddyletswydd sy'n syrthio i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod mai Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i sicrhau rheoleiddio cyson ar ddarparwyr y rhyngwyd a fydd yn diogelu pobl Cymru."*

**27.** Mae paragraffau 22 a 23 o Femorandwm Rhif 4 hefyd yn nodi'r rhesymau a roddwyd gan y Gweinidog dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. Mae'r paragraffau hynny'n union yr un peth â pharagraffau 29 a 30 o Femorandwm Rhif 3.

## 6. Ystyriaeth y Pwyllgor

**28.** Trafododd y Pwyllgor Femoranda Rhif 3 a Rhif 4 yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2023.

**29.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fod angen cydsyniad.

---

<sup>1</sup> Mae angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymalau 156, 158 a 160. Roedd cymalau 156 a 158 yn bwnc Memorandwm Rhif 2 ac mae cymal 160 yn bwnc Memorandwm Rhif 3. Nid oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 163 gan nad oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i greu troseddau rhywiol (sy'n droseddau mewn categori rhestredig at ddiben Deddf Llywodraeth Cymru 2006).

---